# Y DINESYDD

*PAPUR CYMRAEG CAERDYDD* EBRILL 1975 RHIF 19


# NICHOLAS
## Gwyrth o Fachgen

NICHOLAS - erbyn hyn mae'r enw hwn yn gysylltiedig â gwyrth o fachgen nad yw'n peidio â synnu a rhyfeddu trigolion Caerdydd.

Yn fwrlwm o fywyd, yn siaradwr heb ei ail, yn un o saith o blant - dim un ohónynt yn gallu siarad Cymraeg, dim arlliw o'r Gymraeg gan y rhieni - mae Nicholas wedi dod yn ddinesydd cyflawn trwy ddysgu'r iaith yn ddeg oed, cyrraedd Rhydfelen yn unarddeg ac yn awr, yn nosbarth 2, mae'n hollol gartrefol yn y Gymraeg. "Dyw cael 'A' yn Saesneg yn fy adroddiad gwaith ddim yn ddigon", medde fe. "Cael 'A' yn y Gymraeg yw'r nod".

"Does dim disgwyl i chi gael hynny", meddai rhai pobl fach eofn ar fws yr ysgol.

"Rych chi'n dod o ysgol Saesneg".

"Yn ôl eich hiaith chi ar y bws, gallai unrhyw un feddwl mai *chi* sy wedi bod mewn ysgol Saesneg", medd y bachgen o Drelai.

Mae'n werth ei weld yn canu 'Dwi isio bod yn Sais' - dyna'i hoff record. Ei hoff emyn yw 'O na bawn fel yr Iesu', a'i hoff nofel yw 'Barti Ddu' gan T. Llew Jones.

### O DDIFRI

Mae'n debyg mai Llangrannog a gafodd y dylanwad aruthrol cyntaf arno. Trodd y profiad hwn o fod mewn gwersyll e i fod yn ddysgwr Cymraeg o ddifri - doedd e ddim yn gallu peidio â siarad Cymraeg nawr, a Mr John Blake, yr athro Cymraeg yng Nghwrt yr Ala a'i symbylodd. Dyw plant yr ardal ddim yn gallu deall sut mae e wedi gwneud mor dda, ac mae e'n rhyw led-feddwl eu bod nhw'n ystyried ei fod e dipyn yn grach yn cael mynd i ysgol fel Rhydfelen. Mae ei frawd hŷn, sy wedi astudio Saesneg yn Rhydychen ac sy'n olygydd gydag un o weisg mawr Llundain, yn ymhyfrydu yn ei lwyddiant ac mae ei fam yn falch o weld bod ei adroddiad gwaith yn gwella bob tro.

### GAIR DA AM RHYDFELEN

Dim ond gair da sy gan Nicholas i'w ddweud am yr athrawon yn Rhydfelen - pawb yn gyfeillgar y tu hwnt, ac eto'n mynnu disgyblaeth ac yn annog gwaith.

Dyma ddysgwr sy wir o ddifri wedi'i uniaethu ei hunan â bywyd Cymraeg y ddinas. Mae'n aelod yn nosbarth Ysgol Sul Elen Ogwen yn Heol y Crwys ac fe gymerodd ran yng ngwasanaeth Carolau'r ysgol a deledwyd. Roedd hi'n amhosibl sylweddoli o'i ddarllen mai fe oedd y dysgwr cyfangwbl Saesneg yn eu plith. Mae'n mynd yn rheolaidd i'r uwchadran yn y ganolfan at y criw bendigedig o arweinyddion yno - Wyn, Elinor, Eirlys, Gareth Glyn, Prydwen a Pat.

Mae gweld y gweddnewid yn rhywun fel Nic, bachgen sy wedi dod yn rhugl mewn cyn lleied o amser, yn galondid mawr i'r rhai sy'n debyg o wangalonni yn y sefyllfa sy ohoni yng Nghymru ac yng Nghaerdydd. Galwodd Teddy Millward, dysgwr enwog arall o Gaerdydd y ddinas yn "anialwch sment". Diolch i Dduw fod pobl fel fe, Bobi Jones, Alwyn Prosser, Gilbert Ruddock, Billy Raybould a nawr, pobl fel Nic a lluoedd eraill yn troi darnau o'r tir yn rhosdir ac yn dangos nad oes raid i'r ddinas aros yn anialwch sment yn hir. - Mae'r cynhaeaf yn fawr.

### DYSGWR ARALL

Sylwch beth mae rhywun fel Pedr Huw Davies, dysgwr arall o Riwbeina sy'n mynd i fod yn athro, yn ei ddweud:

*"Llawer o bobl, does dim pwrpas o gwbl i'w bywydau, felly maen nhw'n aml yn ddigalon. Ond rwy'n lwcus. Mae gen i bwrpas neu achos i'm bywyd. Achos sy'n dod o flaen unrhywbeth arall. A'r achos yw fy ngwlad - Cymru.*

*Mae llawer o bethau o chwith yn y byd heddiw - trachwant, trais a thlodi. Mae'n bosibl y byddai Cymru'n arwain y ffordd a bod yn esiampl i'r byd. Ond mae hwn yn amhosibl hyd nes i Gymru gael ei hunanlywodraeth - a daw hyn yn y diwedd. Fel y dywedodd Arthur Henderson, cynysgrifennydd y Blaid Lafur, "Given self-government, Wales could establish itself as a modern Utopia." Roedd y dyn yn iawn. Ond rhaid i'r bobl fynnu a chynhyrfu i gyrraedd y nod. Mae'n rhaid i bobl ddod yn fwy cyfrifol tuag at eu cymdeithas, eu gorffennol a'u dyfodol.*

*Mae gen i fy rhan i'w chwarae hefyd. Dyna pam rydw i wedi dod i'r coleg yma - i ddysgu sut i ddysgu. Sut i ddysgu Cymraeg i blant. Rydw i'n meddwl fod yr allwedd i oroesiad a thyfiant yr iaith Gymraeg yn dibynnu ar addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Ac mae'n rhaid i mi chwarae fy rhan - rhan fach, bid siwr, ond rhan bwysig dros ben."*

Dyna her sy'n dod i bawb ohonom ni'r Cymry Cymraeg trwy frwdfrydedd ein dysgwyr.

ETHNI JONES

# Eisteddfod y Garth

Yn ôl pob sôn fe ddylai yr Eisteddfod a gynhelir ar Mai 3ydd fod yn llwyddiant mawr. Bu cystadlu brwd ar y cystadlaethau llenyddol a mawr obeithir y bydd Cymry Caerdydd yn dod yno i gefnogi os nad i gystadlu ar y noson fawr.

Cynhelir yr Eisteddfod yn Neuadd Efail Isaf, gan ddechrau am 6 o'r gloch.



*Nicholas Gardiner gyda'i gyn athro John Blake.*

# NEWYDDION

PERERIN WYF......

Neu, 'Pererinion ydym,' i fod yn fanwl gywir, achos, penderfynodd Y Parch George Noakes, Ficer Dewi Sant drefnu pererindod eleni - fe a Mr Maxwell Evans i fynd â deg o bobol ifanc ar daith trwy ogledd Cymru gan alw yn eglwys Clynnog Fawr ac Aberdaron. Ond fe ddaeth yr eira, yn enwedig i'r gogledd, a'r teimlad cyntaf oedd gohirio'r daith. Ond roedd dychymyg y bobol ifanc wedi'i danio, a phenderfynodd y ficer fynd i un o fannau cynhesaf Cymru yn lle hynny, i Benfro. Gan mai pererindod oedd y daith i fod, dechreuwyd yn swyddogol yn Abergwili, yng ngapel yr esgob. Cafwyd croeso yno a gweddi i ddechrau'r daith. Treuliwyd y noson gyntaf yn Hendy-gwyn, bro a'i hanes yn tarddu o gyfnod Hywel Dda. Yna, aethpwyd ymlaen i Dyddewi a chael cymun yn yr Eglwys Gadeiriol yno. Aeth y deon â'r grŵp bychan o gwmpas yr eglwys gadeiriol - a chafwyd amser gwir fendithiol! O ran diddordeb, fe fu Gwilym y Concwerwr ar bererindod i Dyddewi hefyd - yn Nadolig 1081.

GENEDIGAETHAU

Ar y pedwerydd ar bymtheg o Fawrth ganwyd merch i Eleri a Robin Gwyndaf, Cwm Eithin, 37 Heol Sant Mihangel, Llandaf; sef Nia Eleri chwaer i Llyr.

* * *

Y diwrnod canlynol ganwyd mab - Dafydd Rhys - i Guto a Glenys Roberts, 2 Parc y Fro, Creigiau.

* * *

Ar yr un diwrnod (Mawrth 20fed) ganwyd mab - Hywel Bevan - i Dr a Mrs D. Huw Owen, 28 West Orchard Crescent, Llandaf.

* * *

I gwblhau diwrnod prysur iawn, ganwyd mab, Rhodri Prys, i Tina ac Alun Charles.

SWYDD NEWYDD

Llongyfarchion i Mr Lloyd Evans, Llandaf, sy ar hyn o bryd yn ddirprwy brifathro yn Ysgol Pen-y-bryn, Rhymni. Mae wedi cael ei apwyntio yn brifathro Ysgol Calcott Road, Y Barri. Mae Mr Evans yn hannu o Fwlchyllan yn sir Aberteifi, ac yn aelod yn Heol-y-Crwys.

SYMUD TŶ

Mae Mr a Mrs Stan Reynolds o'r Rhymni wedi symud yn ôl i Ddowlais i fyw. Roedd Mr Reynolds yn ofalwr yng Ngholeg Technegol Rhymni, ac yn aelod ffyddlon yn eglwys Dewi Sant, Caerdydd.

Mae Mr a Mrs Howells wedi symud o Heol Ninian i Lanisien. Fe fu Mr Howells yn cadw gwesty'r Fair View yn Heol Richmond am flynyddoedd ond mae nawr wedi ymddeol, ac yn dymuno mwynhau golygfa deg yn Llanisien. Pob hwyl iddyn nhw ar eu haelwyd newydd...

BABAN NEWYDD ARALL

Peidied neb â meddwl mai creiriau'r gorffennol yn unig a geir yn Sain Ffagan! Mae Mr a Mrs Glyn Jones (gynt o Gaernarfon), ac yn awr o Heol Llanfair, Canton, newydd groesawu merch fach i'w haelwyd. Mae Mr Glyn Jones yn gweithio yn Sain Ffagan.

Rwy'n mynd i Lunden Glanme ....?

*Na, nid yn hollol, ond mae Côr Cerdd Dant Caerdydd wedi derbyn gwahoddiad i fynd i ganu yn Llundain yn niwedd Ebrill. Fe fyddan nhw'n diddori Cymdeithas Ceredigion yn Gray's Inn Road ar Ebrill 17. Yr arweinydd yw Mrs Lisa Erfyl. Mae'n hwyr bryd inni drefnu noson i'r côr yma'n diddanu ni....*

## AMGUEDDFA WERIN CYMRU

### Crefftwr arall i Sain Ffagan

Bydd seiniau'r morthwyl wrth daro'r einion i'w clywed eto cyn bo hir yn Efail y Gof o Lawr y Glyn (Sir Drefaldwyn) Powys, a ailgyfodwyd yn ddiweddar yn yr Amgueddfa Werin. Ar Fawrth 31, bydd David Rhys Jones o Lanbedr Pont Steffan, Dyfed, yn ymuno â staff yr Amgueddfa Werin ac yn parhau ei grefft fel gof gwlad.


# Y Dinesydd

Y Golygydd - 44 Heol y Nant, Rhiwbeina, Caerdydd, neu ffoniwch 611983.
Trysorydd - Dorwen, 29 The Rise, Llanishen.
Dosbarthu - Sian Edwards, 66 Maindy Road, Cathays.
Hysbysebion - Cyhoeddiadau ap Dafydd Cyf, 55 Heol Gadeiriol Isa, Caerdydd. Ffon 396262.


# POP A HWYL MEWN BRODWAITH

Hwyl, pop a phynciau haniaethol - dyma rai o'r themâu annisgwyl a welir mewn arddangosfa o frodwaith gan aelodau o'r Grŵp 62 yn yr Amgueddfa Genedlaethol o Ddydd Sadwrn, Ebrill 5 tan Ebrill 30.

Ffurfiwyd y Grŵp ym 1962 gan nifer bychan o gynllunwyr a oedd yn awyddus i wella delwedd y grefft o frodio ac i ennyn agwedd broffesiynol tuag at y gwaith drwy hyfforddiant mewn ysgolion, colegau a chanolfannau addysg. Erbyn hyn mae holl aelodau'r Grwp 62 yn athrawon proffesiynol, darlithwyr, cynllunwyr, crefftwyr ac artistiaid.

Llwyddodd y fenter i raddau helaeth ac yn awr mae'r cynllunwyr yn arbrofi ymhellach gyda defnyddiau collage ac weithiau yn priodi brodwaith â lluniau a phaentiadau. Mae pop, gweithiau haniaethol, testunau yn llawn hwyl, ynghyd â themâu yn ymwneud â byd natur, pynciau hanesyddol a mytholegol yn cael eu cynrychioli yn yr arddangosfa.

Mae tri artist o Gymru yn arddangos eu gwaith yn yr Amgueddfa Genedlaethol - Mrs Diana Jones a Mrs June Tiley o Goleg Celf CAERDYDD a Mrs Valentine Schwenk sydd hefyd o GAERDYDD.


## Amgueddfa Genedlaethol Cymru

## GWASANAETH I'R YSGOLION

Gwahoddir ceisiadau am y swydd o Brif Glerc yng Ngwasanaeth Ysgolion yr Amgueddfa. Dylai ymgeiswyr am y swydd feddu ar brofiad yn ymwneud â chyfrifon hyd at y mantoli terfynnol; paratoi a thalu cyflogau wythnosol a misol; gwaith pwyllgor a hefyd dyletswyddau gweinyddol. Cynllun blwydd-dâl cyfrannol. 20 niwrnod o wyliau blynyddol.
Cyflog: £1,910 - £2,921 (Telir cytundeb trothwy ynghyd â thâl ychwanegol am gyfieithu).

*Manylion pellach a ffurflen gais oddi wrth: Yr Ysgrifennydd, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Caerdydd CF1 3NP.*

Dyddiad olaf i dderbyn ceisiadau: Dydd Gwener 25ain Ebrill, 1975.

# CANTORION ARDWYN YN STUTTGART

Rol dwy daith lwyddiannus i'r Byd Newydd, roedd awydd ar y Cantorion a'n harweinydd Helena Braithwaite am daith fer arall, ychydig yn nes adre. Be well, felly, nag ymweliad â chwaer-dre Caerdydd, - Stuttgart, yn Ne-Orllewin yr Almaen? Er gwaethaf cryn drafferth efo streiciau cychod, a thaith o 800 milltir mewn bws, cyrhaeddodd y côr mewn hwyliau da a phedwar cyngerdd o'n blaenau. Y cyntaf yn Aischliss y tu allan i'r ddinas - cyngerdd wedi ei drefnu gan y côr meibion lleol, sydd eu hunain am ymweld â Chaerdydd y flwyddyn nesa'. Roedd gan y côr yma gyda llaw, adeilad clwb iddynt eu hunain - digon tebyg i glwb rygbi yma, a mynd mawr ar yr ochor gymdeithasol.

Wedyn cyngerdd yn eglwys St Eberhard's un o brif eglwysi'r ddinas - adeilad hardd, efo *mosaic* anferth y tu cefn i'r allor. Yn anffodus roedd yr organ yn y cefn, a hyn yn creu trafferth i'r cantorion, yr arweinydd a'r organydd (Arnold Draper o Benarth) glywed ei gilydd. Yr ateb oedd symud y côr i'r cefn at yr organ am hanner cynta'r cyngerdd, a phawb yn y gynulleidfa yn eistedd yn braf â'u cefnau at y côr - neb yn malio rhyw lawer ond syllu yn dalog ar y mosaic. Ymhlith yr unawdwyr y noson honno roedd Mari Jones ac Alan Hughes y ddau yn Athrawon.

Y trydydd cyngerdd oedd y mwyaf, yn y Liederhalle - prif neuadd gyngerdd Stuttgart, adeilad modern yn dal 2500. Rhannwyd y noson yma efo Côr Rhos, hwythau ar ymweliad â'r ddinas. Derbyniad gwych i'r corau, a'r lle dan ei sang.

Ac yna allan i hen dre Balingen am gyngerdd mwy gwerinol, gyda Helen Davies o'r Rhondda yn arwain y tro yma.

Yr un croeso, a'r un gwerthfawrogiad o'r miwsig ym mhobman - y gynulleidfa yn rhyfeddu at y canu, at wisgoedd Cymreig y merched, at ganu hyfryd Iwan Davies yr unawdydd, ac at gyflwyniadau clir Robin Jones, Robin wedi dysgu talpiau mawr o'r Almaeneg yn null poli-parot, ond yn amlwg yn cael ei ddeall gan y dyrfa (rhyw groes rhwng acen Bonn ac acen Rhyl meddai un Almaenwr!).

Gyda llaw, o'r ardal yma Schwabia y cychwynodd y Celtiaid ar eu crwydro yn ol rhai, a mwy na hynny gan y Schwabischers y mae'r enw o fod yn Gardis yr Almaen. Os hynny, roeddan nhw'n Gardis hael iawn!

DYFED GLYN JONES.


## SIOP Y TRIBAN

- Yr unig siop ag ynddi restr lawn o Gardiau Cyfarch Cymraeg.
- Y detholiad gorau yng Nghaerdydd o lyfrau Cymraeg a llyfrau am Gymru.

**6 Wyndham Arcade, Caerdydd.**

Ffôn : 30042




# MICHELANGELO
## Cerflunydd Mwyaf y Byd

Eleni, mae nifer o amgueddfeydd ym mhrif ddinasoedd Ewrop yn dathlu penblwydd geni Michelangelo bum can mlynedd yn ol ar Fawrth 16, 1475 ym mhentref Caprese, nid nepell o Fflorens yn yr Eidal. Gofid i ni yma yng Nghaerdydd yw nad oes gan ein Hamgueddfa Genedlaethol ni un o'i weithiau.

Dechreuodd Michelangelo'n brentis cerflunydd yn un o ysgolion teulu'r Medici yn Ninas Fflorens. Ymhlith pethau eraill, roedd y teulu yma'n deulu o fancwyr gyda banc yn y rhan fwyaf o brif ddinasoedd Ewrop - yn cynnwys un yn Llundain. Cofiwn mai bancwyr o Fflorens a fenthycodd arian i Edward I, brenin Lloegr, i dalu am adeiladu ei gestyll yng Nghymru.

Beth bynnag am hynny, aeth adnoddau bancwyr Fflorens i well pwrpas pan gefnogwyd Michelangelo. Yn bump ar hugain oed, cerfluniodd yr athrylith y 'Pieta' a welir yn Eglwys Sant Pedr (Rhufain) heddiw. Yn ddeg ar hugain, cerfluniodd y cerflun anhygoel hwnnw o 'Dafydd' a welir yn ninas Fflorens.


Trwy gydol ei oes hir, hyd at ei farwolaeth yn 89 mlwydd oed, bu'n cerflunio, arlunio a chynllunio adeiladau. Gwelir ei waith heddiw yn Fflorens, dwy ran o bump o'i waith lluniau pensel a chreon mewn arddangosfeydd yn Lloegr (yn eu plith Yr Academi Frenhinol a'r Amgueddfa Brydeinig), a cherfluniau o'i eiddo yn y Louvre ym Mharis, ac yn Rhufain. Mae yna arddangosfa yn yr Amgueddfa Brydeinig sy'n parhau hyd Ebrill 27 - mae'n werth ei gweld.

Drwy gydol oes Michelangelo, bu'r pabau Catholig ar ei ôl yn mynnu ei fod yn cyflawni un gorchestwaith ar ôl y llall - cyflawnodd ddigon yn ystod ei oes i beri syndod a rhyfeddod i bawb a welodd ei waith ar hyd y canrifoedd. Ymuna'r *Dinesydd* yn nathlu prif ddinasoedd Ewrop - os na welsoch ei waith, ewch ar unwaith cyn i'r arddangosfa yn Llundain gau ar Ebrill 27 a chyn i grwydro'r cyfandir fynd yn amhosibl o ddrud.

DAVID MEREDITH

# MAES Y PLANT

## POS CROESEIRIAU



**Ar draws**

1. Mae un yng Nghaerffili ac yng Nghaernarfon, ond does dim un yn Nhregaron. (6)
5. Ar ôl holi, fe ddylech gael hwn! (4)
7. Fe gafodd Herod yn yr Aifft ddioddef deg o'r rhain! Druan ag e! (3)
9. Rydych chi'n edrych ar hwn nawr! (8)
13. Mae hwn yn hel ei fwyd o dŷ i dŷ. All e ddim hedfan, chwaith! (8)
15. Rhaid cael hwn mewn ambell bennill, meddai'r beirdd. (3)
17. . . . . mam yn dŵad! (4)
19. Dyw deuddeg o'r rhain ddim yn ddigon i rai pobl, yn enwedig pan fyddan nhw'n mynd yn hen! (6)

**I lawr**

1. Mae babanod wedi cael eu magu yn un o'r rhain! Gofynnwch i mami, mae un ganddi hi! (3)
2. Mae un gan bawb, ond mae un merch lawer yn hwy nag un bachgen! (5)
3. Defnyddiwch chi dau ar draws ac ambell i beth arall ac fe ellwch chi gynhyrchu hwn - a bydd pawb yn eich deall chi! (4)
4. Diod. (4)
6. Gwaith barnwr! (5)
8. Twyllo yw gwaith hwn! (5)
10. Uno am yr ail waith. (5)
11. Mae dwy mewn trowsus, a rhagor ambell dro. Un lawn sy orau! (5)
12. Os nag ych chi'n hoffi rhywbeth, fe ddywedwch ei fod yn hyn. (5)
14. Cadw amser yn y gerddorfa mae hwn, yntê, Twm? Bwm bwm!! (4)
16. Welwch chi byth o hwn yn y nos! (3)
18. Cymorth i dad pan fo'r car wedi torri lawr? Mae'n ddrud! (2)

Atebion - Tud. 9

## ALUN DWL

*Roedd Alun yn gwneud ei waith cartref, ac am roi dyddiad uwchben ei waith, ond fedre fe yn 'i fyw gofio beth oedd y dyddiad.*

*"Mami," medde fe, "beth yw'r dyddiad, plîs?"*

*"Wn i ddim," medde mami. "Ond mae papur newydd ar y stôl. Edrych ar hwnna."*

*Fe edrychodd Alun ar y papur a gweiddi eto ar ei fam, "Na, dyw'r papur ddim gwerth. Papur ddoe yw e!"*

# Dynion Dwl

Mae pobl yn gallu bod yn ddwl! Ac yn beryglus, hefyd!

Mae llawer o goed llwyf (elm trees) yn marw'r dyddiau hyn oherwydd fod pryfyn bychan yn bwyta'r rhisgl. Mae'n drueni gweld cynifer o goed hardd yn marw, ond mae'n anodd dod o hyd i ddim all ladd y pryfyn bach yma.

Ond fe ddarganfu rhywun y gallai DDT ei ladd...hylif peryglus yw DDT sy'n dda am ladd pryfed. Fe benderfynodd rhai dynion yn America, felly, fynd â galwyni o DDT gyda nhw i'r awyr mewn awyrennau a'i ollwng i lawr ar y coed. Ac yn wir, fe lwyddwyd i ladd llawer o'r pryfed bach, ac achub nifer o'r coed.

Ond, fe aeth llawer o'r DDT i'r ddaear, ac fe gafodd ei fwyta gan bryfed genwair. Fe ddaeth adar i fwyta'r pryfed genwair - ac fe gafodd pob robin goch yn y dalaith arbennig honno ei ladd!

Mae pobl yn gallu bod yn ddwl!

## MIS EBRILL

*Pam mis Ebrill?*

*I gael dechrau'r stori, rhaid ichi fynd yn ôl at y Rhufeiniaid! Roedden nhw'n hoffi mis Ebrill am ei fod, medden nhw, yn agor y drws i'r gwanwyn iddyn nhw. A dyna ydy ystyr Ebrill - agorwr, y mis sy'n agor y drysau i lawer o bethau dymunol. Y ddaear yn cael ei geni o'r newydd ar ôl iddi hi fod yn cysgu drwy'r gaeaf - y blagur yn ymddangos ar frigau'r coed a'r adar yn canu ar y cangau.*

*Ebrill - yr agorwr!*

## Stori Fer

*"Wyt ti'n gwybod, Gwenda," medde mami, "bob tro yr wyt ti'n gwneud drwg, mae un blewyn yn'y ngwallt i'n troi'n wyn!"*

*"W, mami - ydy hynna'n wir am bawb!"*

*"Ydy - mae blewyn o wallt pen mam pob merch fach sy'n gneud drwg yn troi'n wyn! Cofia di."*

*"Ond mami, mae gwallt nain yn wyn i gyd! Rhaid ych bo chi wedi bod yn ddrwg iawn!"*

# *Ffwl Ebrill*

Fe wyddoch chi'n iawn am yr arfer poblogaidd a ddaw inni gyda dydd cyntaf Ebrill - yr arfer o alw "Ffŵl Ebrill" ar rywun os gallwch chi ei dwyllo rywbryd cyn deuddeg o'r gloch. Gobeithio ichi fod yn lwcus yn ystod mis Ebrill eleni.

Fel llawer arfer arall, mae hwn yn hen iawn. Yn mynd yn ôl i'r adeg pan oedd y Normaniaid yn byw yng Nghymru...yr adeg honno, roedd y Cymry yn treulio'r gaeaf yn yr hendref ac yn dod i lawr i'r hafod yn yr haf - ac fel i'r Rhufeiniaid, dechrau Ebrill oedd dechrau'r haf iddyn nhw! Fel y gwyddoch chi, roedd Dewi Sant yn byw yng Nglyn Rhosyn ym Mhenfro amser maith yn ôl, ac roedd y Cymry yn dathlu marwolaeth y sant ar y cyntaf o Fawrth, fis cyfan cyn dathlu'r cyntaf o Ebrill. Wel, yr oedd un Cymro oedd yn methu deffro bob bore - fel llawer ohonoch chi, falle, ac fe aeth ei dad at un o'r Normaniaid oedd yn byw yn Nyfed am rywbeth at yr anallu yma i ddeffro - ac fe gafodd gyffur arbennig yr holl ffordd o Normandi. Roedd yn dweud, "llwyaid" yn ddigon plaen ar y botel ond doedd gan y Cymro ddim llwy - dim ond lletwad neu lwy gawl, ac fe yfodd lond lletwad o'r trwyth yma. Beth bynnag, roedd yn gweithio'r ffordd chwith gyda'r Cymry, ac yn lle deffro, aeth y Cymro bach i drymgwsg hir - a phan ddeffrodd e, dyma fe'n penderfynu mai dydd Gŵyl Ddewi oedd hi, a chan fynd i'r ardd i nôl cenhinen, fe aeth o'r hendre i Lyn Rhosyn. Ond roedd rhai Cymry wedi dod i lawr i'r hafod yno, a dyma'r llanc yn gofyn, "Pam ych chi'n mynd i'r hafod ar ddydd gŵyl Ddewi?"

Wrth gwrs, wydde'r bobol ddim fod y llanc, druan, wedi yfed llond lletwad o gyffur a medde un ohonyn nhw'n gas, "Ebrill - y ffŵl". A byth oddi ar y dydd hwnnw, pan fydde'r hen Gymry'n dod i'r hafod ar y cyntaf o Ebrill, fe fydden nhw'n meddwl am y ffŵl o Gymro a gysgodd am fis heb wybod hynny - ac yn galw unrhyw asyn tebyg iddo fe yn ffŵl. Yn ffŵl Ebrill.

Fyddech chi'n galw'ch hun yn ffŵl? Na fyddech, bid siŵr! Ond ych chi'n credu'r stori hon? Os ych chi, y cyfan ddyweda i yw, "Rych chi *yn* ffŵl".

# Canolfan yr Urdd



*Beth yw cyngor Dewi Pws i Julie yn y llun yma? Anfonwch eich hawgrymiadau at Ian ap Dewi yn y Ganolfan. Bydd gwobr i'r buddugol.*

## BRENHINES YR URDD

Ar Nos Wener, Mawrth 14 yng Nghanolfan yr Urdd yng Nghaerdydd, dewiswyd Miss Julie Hyett yn Frenhines yr Urdd, De Morgannwg. Mae Julie yn 15 oed, ac yn ddisgybl yn Ysgol Hywel, Llandaf, ac wedi dysgu siarad Cymraeg. Mae hi'n ymwelydd cyson a'r Ganolfan ac yn aelod o Uwch Adran Dysgwyr Caerdydd. Dewiswyd Julie allan o nifer o ferched gan y beirniaid Dewi Pws, Mr Prys Edwards, Trysorydd yr Urdd, a Miss Catrin Davies, Ysgrifenyddes Pwyllgor yr Urdd yng Nghaerdydd.

Yn ystod y noson, cafwyd yr agoriad swyddogol i Gaban Coffi/Siop y Ganolfan. Mewn araith hir, dywedodd Dewi Pws ei fod e'a Julie yn cytuno mai dyma'r coffi gorau oedd yng Nghaerdydd, yn well hyd yn oed na'r paned yng nghantîn y BBC!

Yn ddiweddarach yn y ddawns, cyflwynwyd siec gan Jonathan Coombes, un o ddisgyblion Ysgol Uwchradd Llanishen ar ran disgyblion ysgolion Caerdydd i Mr Prys Edwards. Roedd aelodau'r Urdd yn y Ddinas wedi codi dros £200 drwy noddi eu hunain i fod yn dawel. Bydd yr arian yma yn mynd tuag at 'Gronfa Achub y Plant', - y gronfa a fabwysiadwyd gan yr Urdd eleni o dan adran Cyd-ddyn.


## YN EISIAU

Athrawes i Ysgol Feithrin Gymraeg Penarth erbyn Mis Medi 1975 am ddau fore yr wythnos. Dowch i gysylltiad a Non Davies, Cilcarw, 30 Heol Dinas, Penarth.




*Prys Edwards yn derbyn siec gan Jonathan Coombes*
*Lluniau gan Peter Murphy.*

### BALŴNS BALWNS

*Ar Ebrill 21 cyhoeddodd yr Urdd ymgyrch fawr y flwyddyn, ar raddfa genedlaethol, 'Ras Falwns'. Efallai mai codi arian yw'r esgus, efallai cyhoeddusrwydd, ond yn bennaf creu digon o hwyl a sbri yw'r nod. Ar ôl gwerthu dros hanner can mil o falŵns i'r cyhoedd, fe roir cardiau yn cynnwys enw'r perchennog ar y balwns, ac yn gynnar ym mis Medi fe ryddheir y cyfan o Wersyll Llangrannog. Fe wna'r gwynt y gweddill.*

*Cynigir y Gwobrau cyntaf i'r tri canlynol:*

1. *Perchennog y balwn a fydd wedi teithio bellaf (yn ôl yr atebion a dderbynnir)*
2. *Y person a fydd wedi dychwelyd carden y perchennog (rhif 1)*
3. *Yr aelod o'r Urdd a fydd yn gyfrifol am werthu'r nifer fwyaf o falŵns.*

*Byddwch chwithau'n barod am eich cyfle!!*

### YR AELWYD

Bu'r Aelwyd yn cystadlu'n frwd unwaith eto eleni yn Eisteddfod Sir yr Urdd. Ar y cyfan mae pethau'n, argoeli cystal ag y llynedd, a gobeithir cymryd rhan mewn 13 o gystadlaethau yn Llanelli eleni.

Mae'r ddrama eisioes wedi cyrraedd y llwyfan yn Llanelli, gan obeithio ennill eleni eto wrth gwrs. Mae'r corau newydd yn hyderus iawn o lwyddiant hefyd, a dal i ddisgwyl am ganlyniadau'r rhagbrofion i Tîm Siarad Cyhoeddus rydym wrth fynd i'r wasg.

**Chwaraeon**

Cymerodd yr Aelwyd ran flaenllaw yng Nghystadlaethau Chwaraeon yr Urdd eleni eto. Edrychwn ymlaen at weld y tim pel-rwyd a'r rygbi, 7-bob ochr yn enwedig, i wneud yn dda.


## GWESTY PLAS MAENAN

Gwesty Cymreig Cyntaf Cymru

* "DIWEDYDD". Noson draddodiadol gyda bwydydd Cymreig, medd, gwin cartref, difyrrwch gyda'r delyn etc.
* YSTAFELL FWYTA lle cewch fwydydd nodweddiadol a gwasanaeth gyda gwên.
* BARIAU cyhoeddus a golygfeydd godidog o Ddyffryn Conwy.
* POB LLOFT gyda ystafell ymolchi, breifat, ffôn, teledu, offer gwneud te etc.
* CYMRAEG yw prif iaith Plas Maenan.
* CYMERADWYWYD gan Ifas y Tryc ac eraill o gewri'r genedl!
* TELERAU ISEL ar gyfer penwythnosau'r gaeaf.
* CYFARWYDDWYR Enid ac Alan Wyn Jones, gynt o Rhiwbeina.

Ffôn : DOLGARROG 232

# DINAS POWYS

## Y Gymdeithas Gymraeg

Yn ystod Mis Mawrth bu aelodau Cymdeithas Gymraeg Dinas Powis yn dra phrysur. Roedd yna ddau gyfarfod pwysig - sef y gwasanaeth Gŵyl Ddewi ar brynhawn Sul Mawrth 3ydd a'r cinio blynyddol ar nos Lun Mawrth 4ydd. Ar y Sul daeth aelodau'r Gymdeithas ynghyd i wrando ar Ficer Merthyr Dyfan y Barri yn cyflwyno'r neges. Pleser oedd edrych ar yr eglwys wedi'i haddurno a lluoedd o Gennin Pedr a gweld yr holl blant yn eu gwisgoedd Cymreig lliwgar. Roedd y gwasanaeth yng ngofal Llywydd Anrhydeddus y Gymdeithas sef y Rheithor J. Lloyd Richards. Nos Lun yng Ngwesty'r Mount Sorrel y Barri cyfarfu aelodau'r Gym eithas eto i ddathlu Gwyl ei nawddsant. Cafwyd pryd bwyd hynod o flasus a chwmni diddan ffrindiau a gwahoddedigion. Llywiodd Mr Griff Thomas ein Cadeirydd y Dathlu mewn modd ddeheuig iawn ac roedd yn hyfryd ei weld ef a'i briod Ann yn eistedd gyda'r gwahoddedigion ar ôl blynyddoedd o ymdrin a phroblemau ysgrifenyddiaeth y Gymdeithas. Mr Islwyn Jones, Coleg Addysg y Barri oedd y gŵr gwadd ac fel arfer roedd ei anerchiad yn llawn hwyl a hiwmor. Serch hynny trawodd nodyn dwys wrth son am farwolaeth trist Syr T.H. Parry Williams ac Alun Cilie ar adeg pan fo'r genedl yn dathlu Gwyl ei nawddsant. Cafwyd datganiad meistrolgar a soniarus ar y delyn gan Mona Meirion Jones. Noson i'w chofio oedd hon ac mae'r Gymdeithas yn ddyledus i Mr Alun Daniel ein hysgrifennydd ymroddgar am drefn a llwyddiant y dathlu. Edrychwn ymlaen yn awr at wibdaith y Gymdeithas ac am ymarfer erbyn Eisteddfod y Fro ym mis Ebrill.

Owenna Hopwood,
'Minera',
1 Vale View Close,
Llandochau,
Penarth.

### *VERDI YM MAI*

Ar y degfed o Fai, fe fydd Côr Unedig Caerdydd yn perfformio Requiem Verdi (mewn Lladin) yng nghapel Y Tabernacl, Caerdydd ac maen nhw'n ymarfer yn gyson ers wythnosau. Deallaf fod mynd ar bethau ond y byddai'r arweinydd yn hapusach pe bai mwy o denoriaid yn medru ymuno â'r côr! Mae'r baswrs yno'n gryf, a'r merched mor ffyddlon ag arfer, wrth gwrs. Edrychir ymlaen at glywed y perfformiad.

*Ysgol Feithrin Gymraeg Llandaf*

**CALAN MAI**

Cynhelir Noson i ddathlu Calan Mai yn Chapter Mai 3ydd (Nos Sadwrn).

ADLONIANT, CAWL a BARA 70p.

Tocynnau ar gael gan Luned Meredith
9 Heol Cyfeiliog
Pontcanna, Caerdydd
Tel : Caerdydd 33721

## CROESO

## BRIFDDINAS

*I Mr a Mrs Ian Bird ac Alasdair. Roedd Mr a Mrs Bird yn byw yn Creigiau tan yn ddiweddar, ond roedden nhw wedi edrych ymlaen ers tro at ddod i'r ddinas, yn lle mwy cyfleus i waith ac ati. Maen nhw wedi sefydlu yn Heol Don ac wrthi'n gweithio'n galed yn cael y lle i drefn.*

* * *

*I Mrs Ann Merrels, Jane a Timothy, sydd wedi symud o Ystradmynach i fyw yn ymyl Heol Rhydypennau. Fe brofodd y teulu brofedigaeth chwerw yn ddiweddar, sef colli Dr Merrells yn ifanc, ac yntau'n feddyg teulu heb fod yn bell o Ystradmynach. Brodor o Ceinewydd yng Ngheredigion oedd Dr Merrels, ond mae gwreiddiau Mrs Merrels yng Ngheredigion, ac roedd ei thad, Mr W. Hughes yn ŵr blaenllaw yn eglwys Yr Hafod ac yn saer coed ar stâd enwog Yr Hafod. Rhwydd hynt iddyn nhw yn y ddinas.*

# Pennod newydd yn hanes CHAPTER

gan Michael Povey

Y mae Canolfan Celfyddydau 'Chapter' mewn bodolaeth ers chwe blynedd bellach — ac yn sgil ei thyfiant a'i llwyddiant ers pan ei sefydlwyd y mae mwy nag un freuddwyd wedi ei gwireddu. Yn ddiweddar bum yn sgwrsio gyda Brian Jones, un o gyfarwyddwyr y Ganolfan yma yn Market Road, Treganna.

### ANGEN ADEILAD

M.P. Be' o' dd y prif reswm dros sefydlu Chapter?

B.J. *Yn syml iawn, angen. Yn 1969 'roedd amryw o gwmniau amatur a phroffesiynol yn gweithredu yn y brifddinas – ond heb unlle addas i ymarfer heb son am berfformio. Daeth dwy garfan at ei gilydd – y Civic Theatre Trust, oedd yn gyfrifol am hybu Orbit ac Everyman, a'r Arts Centre Project Group. Yr oedd gan amryw o unigolion hefyd ddiddordeb. Yn unol a'r traddodiad Cymreig fe ffurfiwyd pwyllgor a throi at Gyngor y Ddinas am adeilad. Ar ol misoedd o edrych fe benderfynwyd gollwng yr angor yma yn Market Road. Cytunodd Cyngor y Celfyddydau roi grant o bymtheg cant ini, a oedd yn swm isel iawn a deud y gwir hyd yn oed chwe blynedd yn ol, ond yn well na dim. O leia 'roedd y nod cynta' a phwysica wedi ei gyflawni – sef adeilad.*


M.P. Mae Cyngor y Celfyddydau yn dal i roi grant ichi wrth gwrs, ond ai y nhw yw'r unig rai?

B.J. *Na. Erbyn heddiw, ac ar hyd y blynyddoedd a deud y gwir, ma' 'na lawar o sefydliada cyhoeddus amrywiol wedi cyfrannu yn garedig iawn. Y mae Cyngor y Ddinas yn rhoi swm penodedig. 'Ryda ni'n ddyledus i'r Pilgrim Trust am ein hoffer ffilmio, ac i Courage am y ddau far sy' yma erbyn hyn!*

### PRYSURDEB MAWR

M.P. Yn y bedair blynedd ers' dwi lawr yng Nghaerdydd 'ma, newid ydi'r hanes wedi bod, a mwy a mwy yn defnyddio ych gwahanol adnodda chi.

B.J. *Ma'r rhestr yn ddi-ddiwadd wrth gwrs. 'Da ni'n hynod falch fod 'Moving Being; er enghraifft wedi gweld i ffor' yn glir i symud o Lunden ddwy flynedd yn ol ag ymgartrefu yma yn 'Chapter' Ma'r grwp dawns, meim a cherddoriaeth yma yn enwog nid yn unig*



*Golygfa o 'Dreamplay' gan Moving Being*

# Pennod newydd yn hanes CHAPTER

gan Michael Povey

*ym Mhrydain ond drwy'r Cyfandir bellach,*
*Cymdeithas Ddrama Cymru, Cymdeithas Celfyddydau De Cymru, yrEveryman, Theatre y Caricature – ma' rhein i gyd yma, unai wedi eu sefydlu yma neu'n defnyddio'r lle fel canolfan rihyrsio. Yn ogystal ma' bob math o ddosbarthiada nos o bob llun a lliw yn cymryd lle 'ma, ynghyd ag arddangosfeydd o bob math. Ac i'r plant ,– Ysgol Feithrin Treganna. Mae 'na hefyd o leia bedwar cwmni drama yn ymweld â ni bob mis o bob rhan o'r wlad.*

M.P. Faint o staff a gyflogir yma?

*B.J. Erbyn heddiw llawer iawn. Yn y dyddia cynnar, pan nad o'dd dyn yn siwr os y llwyddai y fenter o ddydd i ddydd, 'roedd yn rhaid i Chris, Mick a minna dorchi ein llewys ag ymlafnio iddi o ddifri. (Chris Kinsey a Mick Flood y ddau gyfarwyddwr arall sy'n rhedeg 'Chapter') Bob tro o'dd Cyngor y Celfyddyda yn teimlo bod ni'n haeddu ryw geiniog bach ychwanegol, yna 'roedd yn bosib i ninna adeiladu y staff.*

M.P. Oes 'na unrhyw aelod o'r staff yn siarad Cymraeg?

*B.J. Nagoes*

M.P. A oedd unrhyw wrthwynebiad i sefydlu 'Chapter'?

*B.J. 'Chydig iawn. Mae'n debyg fod y boblogaeth leol yn amheus wrth gwrs. Ardal dosbarth gweithiol ydi'r rhelyw o Dreganna, a dwi ddim yn meddwl fod nhw wedi arfer llawer a'r math o ganolfan oedda ni'n pasa sefydlu. Ond dwi'n falch o fedru deud fod y gefnogaeth leol erbyn hyn yn gry. Pan benderfynasom gael bar yma mi oedd gwrthwynebiad un ddynas leol yn eitha ffyrnig. Dwi'n falch o fedru deud bellach fod y wraig yma erbyn hyn yn gweithio inni fel gwraig lanhau!*

M.P. Bedi'r broblem fwya sy'n ych poeni chi?

*B.J. Heb os nac onibai, arian. Dyma'r broblem barhaol. Da ni yn y coch rownd ril, ac mae hyn yn dueddol o ddal gweithgareddau newydd yn ol. Ond tyda ni yn 'Chapter! ddim yn eithriad – wn i ddim am yr un ganolfan debyg sy'n gneud elw – grant ne ddim.*

M.P. Fel dwedso chi ma' 'na amryw o gwmniau drama wedi eu sefydlu yma. Fasa chi'n hoffi gweld cwmni o actorion o dan faner 'Chapter'?

*B.J. Dwi'n meddwl fod'na hen ddigon o gwmniau drama yng Nghymru fel ag y ma' hi. Tydw i ddim yn gweld y basa un arall o unrhyw les i neb. Gwlad fach ydi Cymru, a does 'na ddim traddodiad cry o theatr wedi bod yma 'rioed. Heblaw am hynny, ma' arian yn sobor o brin ymhobman. Mi ddylan feithrin yr hyn sy' gyda ni'n barod.*

## Y DYFODOL

M.P. Be' fasa chi'n ddeud ydi cam nesa?

*B.J. Ail - drefnu ac ail-adeiladu, Edrych yn ol ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni yn barod ac ail-feddwl am rai agweddau o'r ganolfan. Wrth gwrs y peth pwysica ma' raid ichi gofio ydi fod Chapter wedi llwyddo i ddal i phen uwchlaw y dŵr am chwe blynedd. Mae'n bwysig iawn cofio hyn. – fod yr holl waith a'r dyfal-barhad wedi dwyn ffrwyth ac yn bod ni erbyn hyn wedi ein sefydlu o ddifri.*

M.P. Wedi'ch sefydlu does dim dwywaith. Ond fasa chi'n deud fod chi erbyn hyn yn rhan p'r sefydliad.



*Golygfa o 'Death Kit' a berfformiwyd gan Moving Being .*

*B.J. Mae'n dibynnu be' 'da chi'n feddwl wrth 'sefydliad!*

M.P. Wel–ma'r math o waith sy'n digwydd yma yn newydd – a fedrwch chi ddim deud fod pob drama 'da chi'n berfformio yn mynd i apelio at y mwyafrif o'r boblogaeth.

*B.J. Gwir. A dwi ddim yn meddwl bod ni wedi anelu at be' 'da chi'n alw'n 'fwyafrif' Wedi'r cyfan nid canolfan fasnachol ydi 'Chapter' a does gynno ni ddim gobaith i gystadlu efo theatra mawr Caerdydd, Ond i ddwad yn ol i'r gair 'sefydliad' 'Da ni'n derbyn cymorth ariannol gin nifer o gyrff cyhoeddus, Felly, ma'n rhaid cyd-ymffurfio ryw gymaint. 'Da ni mor sefydliedig â hynny dwi'n meddwl.*

M.P. Pwy yn ych tyb chi sy'n cyfrannu fwya i ddiwylliant y brif-ddinas. Y chi, neu theatra mawr fel y Sherman neu'r New?

*B.J. Mae'n dibynnu be' 'da chi'n alw'n ddiwylliant. I gymharu â ni yma mae arian aruthrol yn ca'l i suddo i'r theatra mawr, Tydw i ddim yn credu fod y cynnyrch sy'n cael ei roi gerbron o'r herwydd yn cyfiawnhau gwario y ffasiwn arian, Ma' 'na lawar o berfformiada da iw cael yn 'Chapter' – hynny yw, dipyn o swmp a sylwedd. Anamal ma' hyn yn digwydd yng nghanol y ddinas. Ond wrth gwrs ma' rhaid iddy' nhw hybu y stwff poblogaidd am mai masnachol ydy nhw, Tŷ llawn sy'n bwysig. Ma' 'na le i'r ddau fath o ddiwylliant wrth rheswm, ond ddyla un math ddim diodda ar gownt y llall.*

## BETH AM Y GYMRAEG?

M.P. Fel dwedso chi'n gynharach does 'na neb ar staff 'Chapter' yn siarad Cymraeg. Am nad yda chi'n gneud fawr o stwff yn Gymraeg ydi'r rheswm am hyn?

*B.J. 'Da chi'n llygad ych lle wrth gwrs, Tyda ni ddim yn gneud fawr ddim yn Gymraeg er fod rhai gweithgaredda Cymraeg yn digwydd yma o bryd i'w gilydd. Ond gadewch imi fod yn hollol bendant. Mi fysa ni'n croesawu llawer mwy o gynyrch yn yr iaith, Mi ddyla Cymry Cymraeg y ddinas sylweddol i hyn. Yn wir, dwi ddim yn gweld na fedra rhywyn sefydlu canolfan debyg i 'Chapter' yn Gymraeg. Mae'n syndod i mi nad oes gan yr iaith le parhaol i ddangos ei nwyddau ym mhrifddinas Cymru o bob man!*

# Y GORNEL LYFRAU

# AWEL IACH

Nid pawb sy'n hoffi treulio oriau uwchben cerdd yn ceisio gweld y neges sydd ynghudd yn nryswch y llinellau. Bron na fyddai rhywun yn dweud mai po fwya cymhleth y gerdd mwya'n byd y ganmoliaeth yn y Gymru gyfoes.

Un bardd sydd fel awel iach yn y sefyllfa bresennol yw Gwyn Thomas sy'n ddarlithydd yn Adran y Gymraeg, Coleg y Brifysgol, Bangor. Nodwedd ohono fel darlithydd a'i gwnai'n boblogaidd gyda myfyrwyr oedd ei allu i wneud pwnc mor astrus a thrwm a Hen Gymraeg, yn weddol ddiddorol Roedd gwaith Dafydd ap Gwilym, hyd yn oed am naw o'r gloch y bore, yn bwnc i edrych ymlaen amdano.

Cyhoeddwyd ei gyfrol ddiweddaraf o farddoniaeth 'Y Pethau Diwethaf' sef deugain o gerddi ar bob math o bynciau difrifol ac ysgafn, gan Wasg Gee. Nid yw eu darllen yn straen feddyliol o gwbl, ond ni olyga hyn eu bod yn gerddi syml. Mae nifer ohonynt yn ddoniol dros ben ond mae mwy iddynt na doniolwch. Ceir cyffyrddiadau angerddol teimladwy yn cael eu cyfleu yn syml, fel yn y gerdd Y Pethau Diwethaf sy'n son am wraig ifanc a ddioddefai o ganer ac a gipiwyd yn y diwedd o ganol ei phethau i ysbyty i farw. Nid oes gofod i son am y cerddi'n fanwl ond mae'r gyfrol fach yma'n werth ei phrynu.

# Pam Miwsical?

gan Allan Cook

*Mae drama gerddorol Allan Cook, gyda cherddoriaeth gan Marged Esli, 'Beca a'i Phlant' i'w gweld yn Theatr Sherman, Caerdydd o 23-26 Ebrill.*

Fy uchelgais fel dramodydd fuase bod nid yn Harold Pinter nac yn John Arden Cymraeg ond i fod yn Agatha Christie neu yn Richard Rogers.

Uchelgais rhyfedd? Wel, mae dramodwyr fel Saunders Lewis a Gwenlyn Parry yn well yn fy marn i na'u cydoeswyr Saesneg. Ond ble mae 'na Agatha Christie neu Richard Rogers Cymraeg?

Ar ôl teithio am rai blynyddoedd gyda'r Cwmni Theatr yn Gymraeg a Saesneg fe ddeuthum i'r casgliad bod eisiau dramau poblogaidd ysgafn yn y Gymraeg; i greu cynulleidfa newydd i'r ddrama. Cynulleidfa sy'n dod i weld drama, nid cynulleidfa sy'n dod i gefnogi'r Gymraeg.

Felly 'Beca a'i Phlant' oedd y canlyniad. Fel adloniant yr ysgrifennwyd 'Beca' ond mae'r rhan fwya o'r caneuon yn perthyn i'r cyfnod os nad i'r helynt ei hyn. Mae'r chwarae yn digwydd yn Ffair Llandeilo yng nghwmni teithiol y Doctor Levi Zecil Brown. Mae hyd yn oed Doctor Levi yn tarddu o un o ganeuon y cyfnod.

Oddiar i mi ysgrifennu 'Beca' mae'r Theatr ysgafn yn dod yn agosach. Gwelwyd 'Beca' yn Eisteddfod Bro Myrddin am y tro cynta. Yr oedd miwsical arall ym Mro Myrddin 'Nia Ben Aur' ac yn ddiweddar iawn mae'r BBC wedi arddangos miwsical Michael Povey o 'Twm Sion Cati'.

# GWANWYN YN Y DDINAS

Alun Llywelyn Williams. Gwasg Gee. Pris £2.

"Darn yn unig o hunangofiant a geir yn y llyfr hwn" - dyna yw cychwyn y broliant i'r gyfrol yma. Fe wyr y rhan fwyaf ohonom y gall cofiannau a hunangofiannau fod yn bethau diflas iawn i'w darllen; yn cynnig cyfle arbennig i awdur ganmol ei hun a'i deulu. Yn ogystal maent yn aml yn gyfyngedig o ran diddordeb i'r rhai sy'n wybyddus a'r ardal arbennig dan sylw.

Mae yna wrth gwrs eithriadau, a does ond angen enwi campwaith Dr Kate Roberts 'Y Lon Wen' i ddangos fel y gall awdur greu 'llenyddiaeth o ddiddordeb i'r mwyafrif hyd yn oed wrth fod mor blwyfol a son amdano'i hun, ei dylwyth a'i ardal.

Fe fydd 'Gwanwyn yn y Ddinas' hefyd yn boblogaidd, nid yn unig gan y rhai hynny sydd yn gysylltiedig a Chaerdydd a chapel Heol y Crwys, neu a hanes Coleg y Brifysgol, Caerdydd, neu am fod y bennod ar ddarlledu yn hynod o ddiddorol, ond oherwydd fod Alun Llywelyn Williams wedi llwyddo i fod yn onest, hyd yn oed wth drafod ei rieni ei hun, ac nid llawer sy'n llwyddo i fod mor onest a hynny.

Fe ddywed yr awdur mai ei brif amcan wth ysgrifennu'r llyfr oedd ceisio esbonio iddo'i hunan sut y bu iddo dyfu'n annisgwyl yn fardd a fynnai ganu yn Gymraeg. Nid yw hyn yn anodd i'w ddeall oherwydd mai Saesneg oedd iaith yr aelwyd a iaith ffrindiau, a phwnc eilradd a dibwys oedd y Gymraeg yng ngolwg y mwyafrif yn yr ysgol. Yng ngeiriau yr awdur ei hun "Saesneg oedd iaith popeth a ystyriwn yn werthfawr mewn bywyd". "Doedd dim son ar ein haelwyd ni am gylchgrawn Cymraeg o unrhyw fath — wedyn canlyniad y diffyg diwylliant Cymraeg yn fy Nhad a'm Mam oedd nad oedd ganddyn nhw ddim ohono i'w drosglwyddo i ni'r plant."

Beth bynnag am hynny at y Gymraeg y trodd Alun Llywelyn Williams, yn bennaf oherwydd i'w dad ddeddfu y byddai'n rhaid i'r Gymraeg fod yn un o'i bynciau yn y chweched dosbarth, ond buan iawn y daeth i werthfawrogi cyfoeth llenyddiaeth Gymraeg.

Neulltuir' yr ail bennod i'w gyfnod yng Ngholeg y Brifysgol Caerdydd, profiad braidd yn siomedig iddo. Ceir sylwadau diddorol ar rai o ddarlithwyr y cyfnod - fel W.J. Gruffydd, William Rees, David Williams, Gruffydd John Williams a T.J. Morgan; a cheir ychydig o sôn hefyd am fywyd a syniadau myfyrwyr y cytnod — nid oedd dirwasgiad y tridegau yn rhoi llawer o gyfle i fyfyrwyr geisio newid y drefn fel sy'n digwydd heddiw.

Dyma'r cyfnod y dechreuodd lenydda o ddifrif ond gorfu iddo hefyd geisio ymgyfarwyddo a thraddodiad llenyddol gwahanol iawn i'r hyn yr oedd wedi arfer ag ef. Sylweddolodd hefyd "fod y diwylliant Cymraeg wedi ei seilio i raddau helaeth iawn ar fywyd gwledig", a'i fod braidd yn amherthnasol i rywun wedi ei godi yng Nghaerdydd. Dylanwadwyd yn fawr arno gan feirdd ifanc fel W.H Auden a Cecil Day Lewis, beirdd oedd wedi sylweddoli fod gwyddoniaeth a diwydiannaeth fodern wedi dymchwel seiliau gwledig gwareiddiad unwaith ac am byth.

"A'm swydd i fel bardd, mi gredwn, oedd mynegi profiad dynol a gwarchod gwerthoedd parhaol dyn yn wyneb anrhefn ac ofnadwyaeth yr oes .... Ni welwn ddyfodol i'r iaith heb iddi ymysgwyd o'i chefndir gwledig a thyfu'n gyfrwng mynegiant grymus i fywyd a diwylliant dinesig Morgannwg a Mynwy lle'r oedd ei thynged, a thynged Cymru gyfan felly yn y fantol." Diweddir y bennod drwy son am y cylchgrawn Y Tir Newydd a olygwyd gan yr awdur gyda Llew Walters o Ferthyr Tudful yn is-olygydd.

Gan mai Caerdydd yw pencadlys darlledu yng Nghymru, bydd y bennod olaf ar Ddarlledu yn sicr o apelio at nifer o ddarllenwyr Y Dinesydd. Mae'n bennod hynod o ddiddorol a phwysig, sy'n pwysleisio yr angen gwirioneddol am gyfrol gyfan yn ymdrin a'r cyfnod pryd gosodwyd seiliau ein cyfundrefn ddarlledu bresennol gan Sam Jones a'i gyd-weithwyr cydwybodol.

Cyfrol werthfawr hynod o ddiddorol, sy'n gyfrwng inni werthfawrogi'n well farddoniaeth a neges bwysig Alun Llywelyn Williams.

# CYMDEITHAS YR IAITH

## Cell Caerdydd

Bu pump ar hugain o aelodau Cymdeithas yr Iaith yn bresennol yng nghyfarfod Cell Caerdydd a gynhaliwyd yng Nghanolfan vr Urdd vn ddiweddar. Hwyrach fod rhyw achlysur mwy teil wngyn denu gweddill ein haelodau - 75 ohonynt a bod yn fanwl. Penderfynwyd sefydlu un gell yn hytrach na thair oherwydd ehangder yr ardal. I bwrpas aelodaeth, estynai Caerdydd o'r Dociau hudol beryglus i bentref cysglyd Creigiau a chodai problemau cyfathrebu yn sgil y fath rychwant. Chwerthinllyd yw cofio fod llai na hanner dwsin o aelodau mewn un gell o dan yr hen drefn.

Cytunodd pawb yn y cyfarfod y dylid danfon llythyr at Brifathro Coleg Amldechnegol Trefforest yn achwyn am y modd yr amddifedir Eilian Williams ac eraill o'r hawl sylfaenol i sefyll eu harholiadau yn Gymraeg. Y Gymraeg yw'r unig iaith y mae gan Eilian ryw fath o feistrolaeth arni, beth bynnag. Dadl rhai o ddarlithwyr tybiedig ddeallus y sefydliad addysgol hwn yw os rhoddir chwarae teg i achos Eilian yna bydd rhaid ildio i geisiadau Persiaid ac Indiaid (a chyffelyb fewnfudwyr sy'n britho'r coleg) am ateb cwestiynau arholiad yn eu hiaith frodorol hwythau. Oni sylweddolant mai nid ym Magdad na Delhi yr enillant eu bywoliaeth ond heb fod yn bell o'r fan y cyfansoddwyd 'Hen Wlad Fy Nhadau'? Mae'n debyg fod nam ar eu gweledigaeth o'u hamgylchfyd. Efallai fod eu cwmpawd wedi'i ddryllio. Etholwyd y Brawd Lyn Owen yn Swyddog Cyllid a chymhellwyd pob aelod i ymuno a'r Clwb 500. Nid yw punt neu ddwy y mis ond aberth bitw er cynyddu cyfrif banc truenus y Gymdeithas.

Pwysleisiodd Wynfford James y dylid addasu brwydr yr iaith at anghenion yr ardal. Yng wyneb y ffaith hon dylem sylweddoli natur ein problem yn glir yn y ddinas gymysgryw hon ac ymegnio i rwystro'r iaith rhag prysuro o'r tir. Polisi unffurf anystwyth fu gwendid y Gymdeithas yn y gorffennol. Arferai'r Cysylltwyr yng Nghaerdydd aros yn ddisgwylgar am orchymyn dwyfol o Aberystwyth yn lle datrys problemau arbennig y Brifddinas. Trafodir y pwnc hwn yn fwy manwl yn yr Ysgol Basg yn y Bala Mawrth 26-30. Ceir manylion pellach oddi wrth Hefin Wyn Tomos, 37 Heol Ninian, Parc y Rhath, Caerdydd.

Penderfynwyd danfon llythyr i'r Ysgrifennydd Gwladol yn ei hysbysu y bydd yr ymgyrch arwyddion yn ail-ddechrau yng wyneb ei benderfyniad afresymol a'i agwedd ystyfnig. Bydd dirprwyaeth o'r gell yn ymweld â siopau mawr Caerdydd yn y dyfodol agos. Ceisir perswadio rheolwyr y sefydliadau hyn i ddefnyddio'r Gymraeg yn ysgrifenedig ac yn weladwy ymhob agwedd ar eu husnes. Rydym yn cerdded mewn tywyllwch os nad ydym am fynnu bod y Gymraeg yn cael ei harddangos yn ei holl ysblander o fewn ein hamgylchfyd dinesig.

### TREFNYDD NEWYDD

Trefnydd newydd Ymarfer Corff De Morgannwg yw Mrs Janet Phillips, gynt o Goleg Addysg Dinas Caerdydd. Mae Mrs Phillips yn hannu o gylch Aberystwyth a Miss Bateman oedd hi cyn priodi. Roedd hi'n gryn gampwraig gyda phêl hoci a bu'n chwarae dros Gymru. Mae'n beirniadu llawer yn eisteddfodau'r Urdd. Mae ei gŵr, Ifor Phillips, hefyd yn dod o Geredigion, o ardal Llangwyryfon. Pob hwyl iddi hi yn ei swydd newydd.

### Atebion:


**Ar draws**

*1 Castell; 5 Ateb; 7 Pla; 9 Croesair; 13 Cardotyn; 15 Odl; 17 Dacw; 19 Misoedd.*

**I lawr**

*1 Côl; 2 Tafod; 3 Llais; 4 Te; 6 Barnu; 8 Actor; 10 Aduno; 11 Poced; 12 Atgas; 14 Drwm; 16 Dydd; 18 A.A.*

# NEWYDDION CWM RHYMNI



Mae ardal Trecennydd, Caerffili, yn ymffrostio yn ei Chanolfan Gymdeithasol newydd sbon ac mae nifer o fudiadau'r dref eisoes wedi manteisio ar ei chyfleusterau bendigedig. Ac yno cynhelir Twmpath Dawns ar nos Wener, Mai 9, i ddechrau am 7.30p.m. - y digwyddiad nesaf mewn cyfres a drefnwyd er budd cyfraniad Cwm Rhymni i Gronfa'r Miliwn yr Eisteddfod Genedlaethol. Prif atyniadau'r noson fydd eitemau gan Barti Dawns Ysgol Gymraeg Caerffili a Grŵp Cân Actol Ysgol Gymraeg Caerffili - y ddau yn enillwyr yn Eisteddfodau'r Urdd ac yn cynrychioli Gwent yn Llanelli ym mis Mehefin. Y galwr fydd Randal Isaac.

* * *

Ie, cynrychioli Sir Gwent fydd y ddwy Ysgol yma a'r ysgolion eraill yn y Cwm er, yn ddaearyddol, mae Cwm Rhymni yn rhan o Forgannwg Ganol. Bu'r trefniant hwn mewn bodolaeth cyn yr ad-drefniant sirol hefyd. Pryd hynny roedd Cwm Rhymni a Merthyr yn ymuno â Sir Fynwy ar lwyfan yr Eisteddfod ond collwyd Merthyr i Forgannwg Ganol gyda'r ad-drefniant. Sut bynnag y teimlad yng Nghwm Rhymni oedd nad oedd Gwent yn ddigon cryf o safbwynt yr Urdd i sefyll ar eithraed ei hun a phenderfynwyd y byddai'n rhaid aros yn rhan ohoni dros dro beth bynnag.

Mae datblygiad yr ysgolion Cymraeg yn Rhisca, Casnewydd a Chwmbran a'r atgyfnerthiad yn y drefn o ddysgu Cymraeg mewn nifer o'r ysgolion uwchradd yng Ngwent yn rhoi gobaith newydd am y dyfodol ac yn prysuro'r dydd pan fydd yr Urdd yn penderfynu parchu'r ffiniau sirol yn y rhan yma o Gymru.

* * *

Daeth prifathrawon yr holl ysgolion cynradd Cymraeg sy'n bwydo Ysgol Rhydfelen ynghyd i Ysgol Gymraeg Caerffili i dalu teyrnged i Mr Gwilym Humphreys wrth iddo ffarwelio â'i swydd fel prifathro Rhydfelen. Cyflwynwyd anrheg o sbienddrych iddo ar ran y prifathrawon gan Mr Elwyn Morgan, Aberdâr, ac mae'n siwr y bydd hwn yn ei alluogi i gadw golwg ar ddatblygiadau yn yr ysgol!

* * *

Daeth rhaglen gaeaf Cylch Diwylliannol Caerffili i ben gyda'r ddegfed darlith gan W.J. Jones, Coleg Addysg Caerdydd, ar Lenyddiaeth Gymraeg Gyfoes. Yn amserol iawn, dangoswyd ffilmiau o eiddo'r BBC ar fywyd a gwaith y diweddar Syr T.H. Parry-Williams. Cafwyd blas arbennig ar glywed llais y bardd ei hun yn darllen rhai o'i gerddi.

Penderfynwyd yn unfrydol i wahodd W.J. yn ôl eto y gaeaf nesaf i draddodi cwrs o ddarlithoedd ar waith Saunders Lewis. Yn ogystal, penodwyd Mrs E. Richards yn Gadeirydd newydd a Dafydd Islwyn yn Ysgrifennydd.

* * *

'Corff a Meddwl' oedd testun darlith y Dr Dafydd Hughes yng nghyfarfod olaf y tymor o Gymdeithas Gymraeg Caerffili. Roedd y drafodaeth frwd ar ddiwedd y ddarlith yn brawf o lwyddiant y darlithydd i gyflwyno'i destun mewn ffordd afaelgar a diddorol.

Yng nghyfarfod blynyddol y Gymdeithas etholwyd y swyddogion a ganlyn - Llywydd, y Parch. Denzil John; Trysorydd, H.P. Richards; Ysgrifennydd, Gareth Roberts; Is-Ysgrifennydd, Alun Charles. Penodwyd Eiry Palfrey, D.J. Owen, Margaret Griffiths, Lynette Jones ac Eleri Betts fel aelodau ychwanegol ar y pwyllgor.

* * *

Roedd Dydd Iau, Mawrth 20, yn ddiwrnod mawr yn hanes Clwb Peldroed Caerdydd, oherwydd dyblodd nifer ei gefnogwyr gyda genedigaeth Rhodri Prys, yn fab i Alun a Tina Charles, Lôn y Garwa, Caerffili! Llongyfarchiadau calonnog i'r rhieni.

# O'R TABERNACL

Heb unrhyw amheuaeth, cyfarfod pwysicaf mis Mawrth oedd y cyfarfod prynhawn Sul, Mawrth 2il i ddathlu croesawu cyfieithiad newydd y Testament Newydd i Gymraeg. Mae hanes y cyfarfod wedi ymddangos eisoes ond dyma emyn a gyfansoddwyd yn arbennig gan y Parch Raymond Williams ar gyfer y cyfarfod hwnnw.

Dduw, Grewr mawr y byd,
A Thad yr holl genedloedd
Canmolwn oll ynghyd
Ryfeddod dy weithredoedd.
Trwy'r Ysbryd Sanctaidd byw,
Datguddiwyd i bob oes
Anfeidrol gariad Duw
Yn angau drud y groes.

Diolchwn gyda blas
Am Gymru a'i goludoedd,
A holl fendithion gras
Ddaeth iddi drwy'r canrifoedd.
A thaer weddiau'r Ffydd,
Erfyniwn drosti hi
Adfywiad yn ein dydd
Er llwydd dy Deyrnas Di.

Rho, Arglwydd fendith fawr
Ar air yr Ysgrythurau,
I'th blant sydd yma'n awr
I'w dderbyn i'w calonnau.
Cymru i Grist a fydd
Pan welir drwy y tir
Mai Crist i Gymru sydd
Yn unig fywyd gwir.

(Ar y don 'Nun Danket')

Dymuna'r eglwys ddymuno penblwydd hapus i'n gweinidog ar ddechrau ar ei nawfed flwyddyn gyda ni. Dymunwn iddo lawer iawn o flynyddoedd eto yn ein mysg a diolchwn iddo am ei lafur diflino yn y dyddiau a aeth heibio. Croeso cynnes i Nia Eleri a llongyfarchiadau i'w brawd balch Llŷr Gwyndaf. Llongyfarchiadau i Mami a Dadi hefyd sef Eleri a Robin Gwyndaf.

Nac anghofier y perfformiad o Requiem Verdi yn y Tabernacl nos Sadwrn Mai 10fed. Ceir y tocynnau oddi wrth Mr Ron Lindsay, 28 Bryngwyn Rd., Cyncoed.

# Gwasanaeth i'r Mud a Byddar

Cafodd rhai o aelodau eglwys Dewi Sant brofiad diddorol yn ddiweddar. Fe wydden nhw fod rhai o fud a byddar y ddinas yn dod i addoli yn yr eglwys unwaith y mis, ar ôl yr hwyrol weddi. Yna, fe drefnodd HTV i ddarlledu gwasanaeth mud a byddar - eto gan ddefnyddio eglwys Dewi Sant. Ond gan fod angen elfen sain yn y gwasanaeth, gofynnwyd i'r ficer, Y Parchedig George Noakes a'r aelodauam eu cymorth. Felly aed ati yn ddiymdroi i wneud rhywbeth a oedd yn bur ddieithr iddynt, sef paratoi gwasanaeth ac emynau Saesneg. Ac ar y deunawfed, fe recordiwyd y gwasanaeth, gyda'r mud a'r byddar yn cymryd rhannau arweiniol, a'r parchedig Gareth Jones (gynt o Dregaron) yn annerch. Darlledwyd y gwasanaeth rai dyddiau'n ôl.


## Hen Lyfrau yn eisiau

hen neu ail-law. Hefyd cylchgronau a phapurau. Gallwn alw i'w gweld.

**Siop y Pethe**
Aberystwyth
Dyfed

Ffôn 7120



**THEATR YR YMYLON**

'Codwch fy mhlant! Codwch fy merched!'



**BECA A'I PHLANT**

Drama Gerddorol Gan Allan Cook

Heather Jones Olwen Rees Christine Pritchard
Dwynwen Berry Robin Griffiths Dafydd Hywel
Geraint Jarman Gwynfryn Roberts
David Lyn
Ac Eraill
Caerdydd Theatr Sherman
Ebrill 23 - 26 - 7.30p.m.
a Mercher 2.30p.m.

# Crefft y Turniwr Coed

Arddangosfa o grefft y Turniwr Coed, gan Gwyndaf Breese, yn Amgueddfa 'Yr Hen Gapel', Tre'r-ddôl, Dyfed, Mawrth 27-Medi 30, 1975.

Yn y gorffennol pan ddefnyddid llestri pren yn gyffredinol yn y cartref ac ar y fferm, yr oedd crefft y turniwr coed yn un gyffredin ym mhob rhan o Brydain. Fel y gof, y saer coed a'r gwneuthurwr olwynion, yr oedd y turniwr yn aelod hanfodol o'r gymdeithas wledig canys fe luniai lestri at y bwrdd a'r llaethdy, megis trensiyrnau, lletwadau hufen a llwyau cawl. Yr oedd galw am ei gynnyrch ar y fferm yn ogystal. Lluniai flociau troell ac ystolion godro ynghyd â llawer o angenrheidiau eraill i fywyd bob dydd yr amaethwr. Yn wir, yr oedd llawer o durnwyr yn medru cyflawni gwaith y cowper gwyn, y crefftwr a wnâi fwcedi llaeth, twbâu golchi, buddeiau ymenyn ac offer cyffredin y llaethdy. Dibynnai crefftwyr gwlad eraill ar y turniwr coed i'w cyflenwi â pheiriannau a rhannau eraill a oedd yn angenrheidiol at eu gwaith. Yn y diwydiant gwlân, er enghraifft, y turniwr coed oedd yn gyfrifol am gynhyrchu offer megis troellau nyddu a cheir dirwyn ynghyd â'r miloedd o echelau a riliau dirwyn gwlân a ddefnyddid mewn ffatri.

Offer syml oedd gan y turnwyr coed a hyd at dri-degau'r ganrif bresennol y durn bawl a ddefnyddiai llawer o durnwyr gorllewin Cymru ac ni fu nemor ddatblygiad yn y durn honno er Oes yr Haearn.

GWNEUD PETHAU SYML

Rhinwedd fawr y turniwr ydyw ei allu i wneuthur pethau syml, i wneud rhywbeth parhaol heb addurn diangenrhaid. Yn sgil y pwrpas llesyddol hwn, daw balchder y crefftwr yn ei waith, balchder y gwir grefftwr wrth greu rhywbeth defnyddiol a'i greu gyda thlysni a chwaeth dda.

Hyd dri-degau'r ganrif bresennol o fasarn y gwnaethpwyd y mwyafrif helaeth o gynnyrch siop y turniwr. Gyda diflaniad llwyr ymron gwneuthur caws ac ymenyn yn y cartref, treiodd y galw am offer y llaethdy a chymerodd gwerthu llaeth le gwneuthur ymenyn ar ffermydd Cymru. Diflannodd gwneuthur caws ac edwinodd yr arferiad o wneuthur cawl, a yfid â llwy bren o ffiol bren. Pan ddaeth defnyddiau'r cartref o owmal, alcan, tsieni ac, yn ddiweddarach, blastig ar y farchnad, peidiodd y turniwr â bod yn aelod hanfodol o'r gymdeithas wledig. Caewyd amryw o'r gweithdai yn y tri-degau a throdd y turnwyr a barhâi wrth eu gwaith o wneud yr angenrheidiau traddodiadol llesyddol i'r fferm, y gegin a'r llaethdy at wrthrychau a feddai rinweddau esthetig. Defnyddiwyd llai ar y fasarnen a gwelwyd powlenni addurniedig o bren y ceirios, ywen, morwydd, derw a hyd yn oed roswydd a thîc yn y gweithdy gwledig.

GRAEN CLOS

Heddiw, defnyddia Gwyndaf Breese amrywiaeth helaeth o goed sydd wedi'u tymheru'n dda yn ei waith yn Amgueddfa Werin Cymru. Ymhlith y prif rai gellir nodi masarn, llwyfen, onnen, ywen, afallen, ceirios, gellygen, cneuen ffrengig a choed llai enwog megis lignum vitae a sapele. Hanfodion pren turnio da ydyw graen clos, caledwch ac absenoldeb cwlwm o'r man y gweithir ynddo. Ychwanega wyneb llyfn, lliw deniadol a ffurfiad da at harddwch y darn gorffenedig. Dylid cwympo'r pren brodorol yn y gaeaf a'i dymheru'n dda cyn y gall y turniwr ei ddefnyddio. Yn wir, credai llawer o grefftwyr y dylid ei dymheru ar raddfa un flwyddyn am bob modfedd o'i drwch. Felly dylai darn o bren 10 modfedd o drwch gael ei dymheru mewn ystordy sych, ac ynddo ddigon o awyr, am ddeng mlynedd.

Y diweddar William Richard Evans ydoedd turniwr cyntaf Amgueddfa Werin Cymru. Bu'n gweithio yn Sain Ffagan o 1947 hyd 1960. Brodor ydoedd o Aber-cuch, sir Benfro, a dysgodd ei grefft gyda'i dad-yng-nghyfraith, yr enwog James Davies. Ymhlith y prentisiaid a ddysgwyd ganddo yn yr Amgueddfa Werin yr oedd Gwyndaf Breese, a fu'n brentis o 1952 hyd 1955, ac ef a olynodd Evans ym 1960.



*Gwyndaf Breese wrth ei waith.*

Profodd ei hun yn grefftwr arbennig iawn ac y mae safon ei grefftwaith yn hynod o uchel. Yn ei dro cynhyrchodd nwyddau traddodiadol, defnyddiol y tŷ a'r llaethdy fel y gwnaeth ei lu rhagflaenwyr ond medrodd yn ogystal adeiladu ar sylfaen gadarn traddodiad a chynhyrchu gwrthrychau o bren sy'n gweddu'n addas i'r bywyd cyfoes. Y mae'n hynod bwysig ym mhob crefft fod y gorffennol yn medru ysbrydoli neu symbylu'r presennol a'r dyfodol. Nid yw cadw a diogelu hen grefft yn ddigon ynddo'i hun canys fe ellir colli golwg brif bwrpas y grefft honno oni ofynnir i'r crefftwr ateb gofynion ei oes a'i gymdeithas ef ei hun.


*Amgueddfa Genedlaethol Cymru*

## *Amgueddfa Werin Cymru*

Castell Sain Ffagan a'i erddi
Adeiladau o bob rhan o Gymru wedi eu hailgyfodi
Crefftwyr yn ymarfer eu crefftau traddodiadol
Oriel Ddiwylliant Materol yn dangos agweddau ar fywyd a chymdeithas yng Nghymru
Oriel Amaethyddiaeth Newydd
Arddangosfeydd arbennig o bryd i'w gilydd

*Datblygiadau Newydd*

Oriel Gerbydau Amaethyddol
Oriel Wisgoedd
"Melin Pompren" - melin flawd o Gross Inn, Dyfed.

*Cyfleusterau*

Maes parcio helaeth Ystafell fwyta
Llawlyfr (10c), Llyfrynnau arbennig, Llyfrau a Chardiau ar werth
Bws Rhif 32 o Orsaf Fysiau Cyffredinol Caerdydd ar yr awr

*Ar Agor*

| | | |
|---|---|---|
| Dyddiau'r Wythnos | 10 - 5 | Hydref - Mawrth |
| | 10 - 6 | Ebrill, Mai, Mehefin, Medi |
| | 10 - 7 | Gorffennaf, Awst ar gwyliau cyhoeddus |
| Suliau | 2.30 - 5 | Hydref - Mawrth |
| | 2.30 - 7 | Ebrill - Medi |

Ar gau Noswyl Nadolig Dydd Nadolig Dygwyl Steffan a Dydd Calan

*Mynediad*

| | |
|---|---|
| Oedolion | 10c |
| Plant dan 16 oed | 5c |
| Pensiynwyr am ddim | |

Mynediad am ddim hefyd i bartion ysgol a drefnwyd ymlaen llaw a than oruchwyliaeth

Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd CF5 6XB
Ffôn Caerdydd (0222) 561357

O siopau llyfrau
led-led Cymru

2,000
o gwestiynau

CAMAU CANTAMIL
STESION CANTAMIL
CESTYLL CANTAMIL



pris 65c

GORFFWYSWCH -
YMLACIWCH



CERBYDAU WENALLT

(Perchennog J.M. CROOKES)

Cerbydau moethus gyda 20-51
o seddau i'w hurio

SWYDDFA DOCYNNAU
Ffôn Caerdydd 31174

WHITTLE ROAD, LECKWITH ESTATE,
CAERDYDD.

(Nosweithiau Ffôn 63250)



*GWYNFRYN ROBERTS sy'n chwarae rhan Dave Roberts, sy'n cael ei gyhuddo o ymosod yn fileinig ar ei ddau blentyn yn y gyfres newydd 'Ar Brawf'. Bydd y rhaglen gyntaf yn y gyfres hon ar HTV Cymru am 10.30p.m. dydd Mawrth, Ebrill 8. Cynhyrchydd OWEN GRIFFITHS.*

# CICIO GWYNT
## yng Ngwent

Ffurfiwyd clwb peldroed Cymry Caerdydd - Cymric - tua chwe mlynedd yn ôl pryd yr ymunodd y clwb a Chynghrair Peldroed Caerdydd a'r cylch. Bu'n rhaid cychwyn yn yr adran isa ond buan y dringodd y tim i'w safle bresennol yn yr ail adran - safon reit uchel o beldroed. Dros y blynyddoedd tynnodd pob math o unigolion eu trowsusau i lawr dros y clwb. Torrodd Richard Morus Jones ei goes un prynhawn Sadwrn, ac ymddangosodd Hywel Gwynfryn a Deryk Williams fwy nag unwaith i lenwi bwlch. Roedd Hywel yn gelfydd iawn a'i ben, ond anodd yw chwarae peldroed a'r pen yn unig; a gwledd oedd gweld Deryk Williams yn rhedeg i lawr yr asgell heibio i amddiffynfeydd y gwrthwynebwyr, a hwythau fel petaent wedi eu syfrdannu, - trueni na fyddai Deryk yn cofio pa mor bwysig oedd fod y bel ganddo hefyd! Fodd bynnag dyna'r gorffennol - bellach mae'r safon wedi codi cryn dipyn a thîm arall gan y clwb yng Nghynhrair Casnewydd.

GWAITH CENHADOL

Pwysig iawn yw sylweddoli mai nid chwarae o ran pleser yn unig a wna'r bechgyn bellach. Yn wir teimla'r rhan fwyaf o'r bechgyn eu bod yn gwneud gwaith cenhadol tra phwysig yng Nghasnewydd a'r cyffiniau. Bob yn ail Sadwrn bydd y tîm yn chwarae oddi cartref mewn pentrefi fel Cwmcarn, Abercarn, Machen a Phontymister lle mae'r Gymraeg mor ddieithr i'r trigolion ag yw gwres canolog i Eskimo.

Mae son am iaith y clwb ar led drwy Went, a phobl yn tyrru i weld y tîm, sy'n siarad Cymraeg, yn chwarae peldroed. Ar y cyfan mae'r ymateb yn arbennig o ffafriol a nifer wedi dweud pa mor fendigedig yw clywed y tim yn gweiddi'n Gymraeg ar y cae. Cafwyd ychydig o gwynion wrth gwrs - un o'r goreuon gan hyfforddwr un clwb - "We'll report you to the British Council for not speaking English". Gofynnodd un reffari - "Are you all Welsh Nationalists?"; a pherl arall, gan un a'i wybodaeth am leoliad y rhai sy'n siarad Cymraeg yn fychan iawn oedd - "Are you all from Anglesey?".

RHYW GRAP

Ambell dro fe ddown ar draws rhai sydd a rhyw grap ar yr iaith, ond yn ddiweddar roedd yna un cymeriad yn y tim arall yn arddangos ei wybodaeth o'r Gymraeg drwy weiddi "Dan yr Ogof Caves aye" drwy gydol y gem. Mae'n gwella yn yr ysbyty bellach.

Mae yna un reffari sydd yn hollol onest yn meddwl ei fod yn gallu siarad Cymraeg, ac yn mynnu peidio siarad Saesneg a'r bechgyn. Does neb hyd yma wedi llwyddo i ddeall gair o'r hyn lefarwyd, ond un tro ar ôl i un o'n gwrthwynebwyr gael ei lorio dyma'r reff yn apelio at y troseddwr drwy ddweud - "Fair di fair, iawn di iawn".

Mae'r ddau dim yn eitha llwyddiannus yn y ddwy gynghrair - tua hanner ffordd i fyny'r tabl. Datblygiad gwerth chweil diweddar yw gweld rhai o ddisgyblion Ysgol Rhydfelen yn ymuno a'r clwb ac yn chwarae rhan bwysig iawn yn y gweithgareddau. Mae eraill sy'n dysgu Cymraeg yn chwarae'n gyson ond nid yw'r Saesneg yn cael ei defnyddio o gwbl. Rhy ychydig o gyfle sydd yna i ddysgwyr ymarfer yr iaith.

Beth am ymuno a'r clwb i gefnogi neu chwarae - rydym angen cenhadon.

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor Y Dinesydd. Argraffwyd gan Gyhoeddwyr Cleglen Cyf, 134 Ffordd Parc Ninian, Caerdydd; ffôn : 28917.*
*Hysbysebu gan Gyhoeddiadau ap Dafydd Cyf, 55 Heol Eglwys Gadeiriol Isa, Caerdydd; ffôn : 396262.*